



ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

**Darpariaeth Ddysgu
Ychwanegol Newydd – Ysgol
Aberconwy**

1 Chwefror 2020

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn ymateb i alw cynyddol am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghonwy.
- 1.2 Yn eu cyfarfod ar 25 Chwefror 2020, penderfynodd Cabinet Conwy i gynnal ymgynghoriad ynghylch cynnig i agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd yn Ysgol Aberconwy.
- 1.3 Y cynnig a gyflwynwyd i'r Cabinet oedd ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr 4-11 oed sydd ag awtistiaeth trwy ddatblygu darpariaeth oedran uwchradd. Gobeithiwyd y gallai'r ddarpariaeth gydag adnoddau hon roi gwell cefnogaeth a darpariaeth i ddysgwyr sydd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig.
- 1.4 Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, dechreuodd yr Awdurdod Lleol ar gyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd ar 6 Mawrth. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 17 Rhagfyr, yn dilyn oedi yn sgil cau ysgolion mewn cysylltiad â Covid 19.
- 1.5 Mae'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad statudol hwn fel a ganlyn:

Agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd i ddysgwyr oedran uwchradd sydd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig.

2. Gwybodaeth Gefndirol

2.1 Rhagolygon niferoedd disgyblion

2.11 Fel y disgrifiwyd yn wreiddiol yn y Ddogfen Ymgynghori, bu cynnydd yn nifer y disgyblion gydag awtistiaeth yng Nghonwy yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf.

	2017	2018	2019	2020
Nifer llawn y disgyblion	15870	15802	15803	15777
Nifer y disgyblion sydd ag awtistiaeth	327	380	454	456
Canran o gyfanswm y boblogaeth	2.1%	2.4%	2.9%	2.9%
Cyfartaledd Cymru	1.5%	1.6%	1.8%	1.9%

2.12 Gyda'r cynnydd hwn yn y niferoedd llawn, bu cynnydd ar yr un pryd yn nifer y disgyblion gydag awtistiaeth neu anawsterau newroddatblygiadol cymhleth sy'n profi anawsterau wrth lwyddo i gael mynediad at eu lleoliadau addysg prif ffrwd. Mae angen ystyried y rhesymau dros hyn fesul unigolyn, ond ymhlith yr enghreifftiau mae gorbryder yn ymwneud ag amgylchedd adeiladau ysgolion, perthnasoedd cymdeithasol o fewn lleoliad yr ysgol, anawsterau wrth bontio rhwng y cartref a'r ysgol, a gorbryder ynghylch galwadau a phwysau academaidd.

2.2 Darpariaeth Gyfredol yr Awdurdod Lleol

2.21 Mewn ymateb i'r angen a ddynodwyd am ddarpariaeth i'r grŵp oedran hwn o ddysgwyr, roedd yr Awdurdod Lleol eisoes wedi sefydlu'r cymorth a'r ddarpariaeth ddynodedig a ganlyn ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth:

- **Tîm Allgymorth ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig (ASA)**

Mae'r Gwasanaeth Allgymorth ar gyfer ASA yn cynnwys tîm o Gymhorthwyr Addysgu sy'n gallu darparu cymorth a chynghor i ysgolion prif ffrwd ynghylch awtistiaeth. Mae'r Gwasanaeth yn darparu cynghor a chefnogaeth i'r holl staff

cymorth ac addysgu, gan helpu i osod targedau/amcanion priodol a chynghori ar addasiadau amgylcheddol priodol ac ymyriadau penodol a fydd yn helpu disgyblion i gyflawni'r amcanion hyn.

- **Dosbarth Adnoddau ASA Cyfnod Sylfaen**

Ar gyfer plant 4-7 oed sydd ag anawsterau'n gysylltiedig ag ASA sy'n cael effaith sylweddol ar eu mynediad i amgylchedd prif ffrwd, mae Dosbarth Adnoddau ASA Arbenigol wedi'i leoli yn Ysgol Nant y Groes. Mae disgyblion yn mynychu'r Dosbarth Adnoddau yn llawn amser, ond yn dal i fod wedi eu cofrestru yn eu hysgol gartref, brif ffrwd.

- **Dosbarth Adnoddau ASA Cyfnod Allweddol 2**

Yn yr un modd, mae Dosbarth Adnoddau Arbenigol ar gyfer plant 7-11 oed wedi'i leoli yn Ysgol Ffordd Dyffryn. Mae disgyblion yn mynychu'n llawn amser, ond yn dal i fod wedi eu cofrestru yn eu hysgol gartref. Cynigir cymaint o gynhwysiant a gefnogir i wersi prif ffrwd ag y bo modd ac yn briodol i'w hanghenion unigol i blant sy'n mynychu Dosbarth Adnoddau Cyfnod Allweddol 2.

2.22 Roedd y cynnig yn amodol ar yr ymgynghoriad yn adlewyrchu'r dymuniad i ymestyn y ddarpariaeth bresennol drwy agor darpariaeth newydd i 16 o ddysgwyr yn Ysgol Aberconwy. Cynigir y gallai hwn fod y cam cyntaf wrth ddatblygu cefnogaeth a darpariaeth i'r grŵp hwn o ddysgwyr ar draws y continwwm addysg, o gynhwysiant prif ffrwd i gefnogaeth / lleoliadau arbenigol.

2.3 Rhagolygon niferoedd disgyblion a lleoedd yn Ysgol Aberconwy

2.31 Fel rhan o'r ystyriaethau wrth geisio sefydlu'r ysgol gynnal ar gyfer y ddarpariaeth hon, ystyriwyd a oedd gan Ysgol Aberconwy y lle ffisegol i gynnal yr adnodd hwn rŵan ac yn y dyfodol. Nifer y lleoedd yn yr ysgol ym mis Medi 2019 oedd 1241 o ddisgyblion, a nifer gwirioneddol y disgyblion oedd 826. Golyga hyn fod 497 o leoedd heb eu llenwi i ddisgyblion yn yr ysgol, gan adael digon o le i leoli'r ddarpariaeth adnoddau yn yr ysgol.

2.32 Dyma'r rhagolygon disgyblion am y 5 mlynedd nesaf, ac maent yn dangos fod lleoedd ar gael yn barhaus:

2019	2020	2021	2022	2023
800	811	848	859	867

2.4 Darpariaeth Gyfredol yr Ysgol (Ysgol Aberconwy)

- 2.41 Cymhelliant pellach wrth ystyried Ysgol Aberconwy fel yr ysgol gynnal ar gyfer y ddarpariaeth newydd, oedd y ffaith fod yr ysgol eisoes wedi sefydlu canolfan fewnol ar gyfer disgyblion gydag awtistiaeth, sef 'Pontio'. Eglurai gwybodaeth a ddarparwyd i deuluoedd am y ganolfan mai eu "nod yw sicrhau fod pob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cyflawni neu'n rhagori ar eu llawn botensial." Nod staff sy'n gweithio gyda disgyblion sy'n defnyddio'r ganolfan yw codi hunan barch a hunanhyder a datblygu "sgiliau rheoli personol effeithiol". Yn y pen draw eu nod yw defnyddio'r ganolfan fel amgylchedd feithringar sy'n gyfannol i'r ysgol yn gyffredinol ac yn gyfle i gefnogi disgyblion i allu cael mynediad yn llwyddiannus at addysg brif ffrwd. Mae hyn yn adlewyrchu gweledigaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer cynhwysiant a'r cymhelliant dros gynnig darpariaeth ledled y Sir, ac mae felly'n cynnig cyfle i ymestyn arferion da a darpariaeth bresennol.
- 2.42 Mae Ysgol Aberconwy yn disgrifio sut mae eu darpariaeth bresennol yn dilyn y chwe egwyddor hyn o fagwraeth:
1. Deellir dysgu gan blant yn ddatblygiadol
 2. Mae'r ystafell ddosbarth yn cynnig safle diogel
 3. Pwysigrwydd meithrin er mwyn datblygu hunanhyder
 4. Mae iaith yn fodd cyfathrebu hanfodol
 5. Mae pob math o ymddygiad yn ffurf o gyfathrebu
 6. Pwysigrwydd pontio ym mywydau'r plant
- 2.43 Gan fod Pontio yn gweithredu ar yr adeg y cyhoeddwyd y cynnig, roedd tîm o athrawon ar yr amserlen i addysgu pynciau arbenigol. Galluogodd hyn ddisgyblion i gynnal cysylltiadau gyda'u hathrawon prif ffrwd a'u

hamgylcheddau ystafell ddosbarth, a defnyddiodd athrawon y cyfle i fagu perthnasoedd a helpu i wella ymgysylltu disgyblion â'u haddysg.

- 2.44 Mae hwn yn fodel rydym yn bwriadu parhau ag o a'i ddatblygu drwy agor darpariaeth sir gyfan, wedi'i ariannu gan yr Awdurdod Lleol, gyda chyfleoedd am gynhwysiant mewn dosbarthiadau prif ffrwd lle bo modd a lle bo hynny'n briodol, ond gyda chyfle ychwanegol i athrawon arbenigol ymweld â'r adnodd fel eu bod yn cynnal mynediad i gwricwlwm mor llawn, eang ac amrywiol ag y bo modd.
- 2.43 Mae gan yr ysgol ymagwedd ehangach, mwy positif at gynhwysiant a meithrin, sy'n ymestyn y tu hwnt i'w darpariaeth fewnol. Mae adroddiad diweddaraf Estyn (2018) yn nodi: "Mae ethos gynhwysol, gefnogol a meithringar Ysgol Aberconwy yn cael effaith fuddiol sylweddol ar les a datblygiad personol disgyblion".

2.5 Ansawdd a Safonau mewn Addysg

- 2.51 Teimlir fod angen datblygu'r ddarpariaeth hon, er mwyn sicrhau fod gan bob dysgwr gydag awtistiaeth / anawsterau niwroddatblygiadol cymhleth cysylltiedig fynediad at gyfleoedd addysg priodol a chynhwysfawr o ansawdd uchel, cyfleoedd addysg priodol a chynhwysol, a chynigir darpariaeth i'r rhai hynny sy'n profi anawsterau wrth gael mynediad i addysg brif ffrwd er mwyn cynyddu eu siawns o lwyddo.
- 2.52 Ar hyn o bryd, mae tystiolaeth o arferion da iawn mewn cynhwysiant prif ffrwd, a darpariaeth ragorol i ddysgwyr gydag awtistiaeth ac anabledau dysgu yn Ysgol y Gogarth. Fodd bynnag, mae'r angen wedi ei nodi am ragor o ddarpariaeth fwy arbenigol i ddysgwyr gydag awtistiaeth nad oes ganddynt anabledau dysgu, ond sy'n wynebu anhawster sylweddol wrth gael mynediad at y cwricwlwm prif ffrwd yn ei gyfanrwydd.
- 2.53 Ar hyn o bryd, mae niferoedd cynyddol o ddisgyblion sydd angen pecynnau pwrpasol o gefnogaeth a darpariaeth i geisio eu galluogi i gael mynediad at brofiadau addysg cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys addysg yn y cartref, dysgu 1-1, a lleoliadau addysg amgen. Ni theimlir fod unrhyw un o'r dewisiadau hyn

yn gynaliadwy nac wedi'i deilwra'n benodol ac yn ymatebol i'r angen cynyddol a nodwyd, ac nid ydynt chwaith yn cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i, a'i weledigaeth ar gyfer, system addysg gynhwysol.

- 2.54 Creda'r Awdurdod Lleol mai'r cynnig hwn fydd y cam cyntaf o ddatblygu darpariaeth arbenigol, o ansawdd uchel ar draws pob cyfnod allweddol o fewn addysg, gyda chylch gwaith clir ar gyfer cynhwysiant mewn addysg prif ffrwd lle bo modd, a galluogi disgyblion i gael mynediad i gwricwlwm llawn ac amrywiol. Bydd y ddarpariaeth yn helpu cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i bontio allan o'r ysgol ac ymlaen i gyfleoedd addysg bellach yn ôl eu dyheadau a'u diddordebau.
- 2.55 Bydd hefyd yn helpu sicrhau fod dysgwyr Conwy yn cael eu haddysgu yng Nghonau, gan gynnal cysylltiadau i'w cymunedau a'u grwpiau cyfoedion, a sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan a werthfawrogir o gymuned yr ysgol a gan y Sir yn gyffredinol.

3. Y Cynnig

3.1 Y sefyllfa gyfredol: cynnal y status quo

- 3.11 Ni fyddai cynnal y status quo yn ymatebol i'r angen cynyddol yn y maes hwn, a'r gydnabyddiaeth na fyddai'r cyfleoedd addysg eraill sydd ar gael yn briodol ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, ac ni fyddai'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer disgyblion unigol yn cael eu cyflawni. Ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn ymateb i'w ddyletswydd i ddarparu addysg briodol i bob dysgwr.
- 3.12 Yn ogystal, byddai hyn yn debyg o arwain at leoliadau costus Tu Allan i'r Sir, gan olygu y gallai fod angen i blant deithio pellteroedd mawr i dderbyn y ddarpariaeth addysgol sydd ei hangen arnynt, ac ni fyddai hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth y Sir ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol.

3.2 Dewis a gynigir: Agor Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol newydd

- 3.21 Agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd i 16 (yn y lle cyntaf) o ddysgwyr oedran uwchradd sydd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig sy'n wynebu anhawster sylweddol wrth gael mynediad at yr amgylchedd ysgol prif ffrwd.
- 3.22 Bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ddiogel o ran darparu addysg briodol, sicrhau gwell canlyniadau hirdymor ar gyfer dysgwyr, a chynnal lleoliadau llwyddiannus a chadarnhaol i blant Conwy yn ysgolion Conwy.

3.3 Darpariaeth

- 3.31 Bydd y ddarpariaeth wedi'i lleoli yn Ysgol Aberconwy, gan ddefnyddio dosbarthiadau o faint addas a nodir ar sail ffactorau sŵn a thraffig a mynediad i ystafell synhwyraidd ddynodedig. Bydd mynediad i bob disgybl at yr ystafelloedd gyda mynediad rhwydd i gyfleusterau toiled priodol. Bydd mynediad rhwydd i wersi prif ffrwd ar gyfer cynhwysiant lle bo hynny'n briodol a bydd yn cael ei nodi ar sail unigol.

3.4 Trefniadau cludo

- 3.41 Cynigir cludiant tacsî i bob dysgwr sy'n mynychu'r adnodd, a bydd gwaith parhaus tuag at annibyniaeth, a lle bydd disgyblion yn gallu gwneud eu trefniadau eu hunain i gyrraedd yr ysgol, neu ar gludiant cyhoeddus/ ysgol, bydd hyn yn cael ei annog a'i gefnogi.

3.5 Staff

- 3.51 Bydd y trefniadau staff ar gyfer y ddarpariaeth fel a ganlyn / yn gyfwerth â: Bydd un athro llawn amser ar gyfer pob 8 disgybl, 1 Cymhorthydd Addysgu Lefel 3/4 a 2 Gymhorthydd Addysgu Lefel 1
- 3.52 Mae Achos Busnes wedi ei gyflwyno i barhau i ariannu gofynion staffio'r ddarpariaeth hon.
- 3.53 Hysbysebîr pob swydd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn Ddymunol, gyda phwyslais ar annog y defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi a'r tu hwnt. Mae'r ysgol yn falch o'i thraddodiad a'i threftadaeth Cymraeg ac yn gyson yn datblygu darpariaeth mewn rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r rhai sy'n dymuno hynny. Bydd yr un hawl gan bob disgybl sy'n cael mynediad at y ddarpariaeth adnoddau i ddewis mynediad i'r pynciau hyn.

3.6 Bendithion ac anfanteision

- 3.61 Yn dilyn yr ymgynghoriad a'r ymatebion a gafwyd, nid oes unrhyw anfanteision canfyddedig i ddatblygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol hon mewn ymateb i'r angen cynyddol a ddynodwyd.
- 3.62 Y bendithion canfyddedig yw y bydd gan ddysgwyr yng Nghonwy y nodwyd sydd angen y ddarpariaeth uwch / arbenigol hon fynediad iddo ar draws addysg Gynradd ac Uwchradd.

4. Ymgynghoriad

4.1 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng **6 Mawrth** ac **17 Rhagfyr** (gan gynnwys oedi yn y cyfnod ymgynghori yn sgil Covid 19).

4.2 Ymgynghoreion

4.21 Dosbarthwyd y Ddogfen Ymgynghori, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, i'r ymgynghoreion canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

Gofynion y Cod Trefniadaeth 011/2018	Dosbarthwyd i:
Rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid ac aelodau staff ysgolion a effeithir gan y cynigion.	Pennaeth Ysgol Aberconwy i'w ddosbarthu ymhellach i rieni, gofalwyr, gwarcheidwaid ac aelodau staff eraill. Penaethiaid holl Ysgolion Uwchradd eraill Conwy, Ysgol Nant y Groes ac Ysgol Ffordd Dyffryn i'w dosbarthu ymhellach i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid
Yr awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig i unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt.	Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cyflwyno'r cynnig
Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynnig yn debyg o effeithio arnynt – gan gynnwys o ran darpariaeth AAA, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu'n debyg o osod disgyblion gydag AAA ynddynt.	Cyngor Sir Ddinbych – moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk Cyngor Gwynedd - ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru Cyngor Ynys Môn - ysgolionmon@ynysmon.gov.uk
Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig Rufeinig ar gyfer yr ardal y lleolir unrhyw ysgol sy'n debyg o gael ei heffeithio.	Awdurdod Esgobaeth Lanelwy yr Eglwys yng Nghymru - rosalindwilliams@cinw.org.uk Awdurdod Esgobaeth Bangor - anestgrayfrazier@churchinwales.org.uk . Esgobaeth Gatholig Rufeinig Wrecsam - communications@rcdwxm.org.uk
Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n agored i'r cynigion	Corff Llywodraethu Ysgol Aberconwy
Corff llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debyg o gael eu heffeithio arnynt.	Cyrrff Llywodraethu pob ysgol yng Nghonwy
Gweinidogion Cymru	Schoolsmanagementdivision3@gov.wales
Aelodau Cynulliad (AC) Etholaeth a Rhanbarthol ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan / y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	mandy.jones@cynulliad.cymru AC Rhanbarthol mark.isherwood@cynulliad.cymru AC Rhanbarthol Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru AC Rhanbarthol Michelle.Brown@cynulliad.cymru AC Rhanbarthol Janet.Finch-Saunders@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Aberconwy Jack.Sargeant@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Alun a Glannau Dyfrdwy Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Arfon Ken.Skates@cynulliad.cymru AC Etholaeth, De Clwyd

	Darren.Millar@cynylliad.cymru AC Etholaeth, Gorrlewin Clwyd Hannah.Blythyn@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Delyn Ann.jones@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Dyffryn Clwyd Lesley.Griffiths@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Wrecsam Rhun.apiorwerth@cynulliad.cymru AC Etholaeth, Ynys Môn robin.millar.mp@parliament.uk AS, Etholaeth Aberconwy David.jones.mp@parliament.uk AS, Etholaeth Gorrlewin Clwyd
Estyn	Meilyr Rowlands - Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: ymholiadau@estyn.llyw.cymru
Undebau Athrawon ac undebau llafur staff yn cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion hyn.	Undebau - National Education union - john.owen@neu.org.uk , NAHT - cymru@naht.org.uk NASUWT - rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk UCAC - ucac@ucac.cymru UNISON – branchsecretary@unisonconwy.co.uk GMB – mark.jones@gmb.org.uk
Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Arwyn Thomas - Prif Swyddog GwE arwynthomas@gwegogledd.cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	Arfon Jones Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Unrhyw gyngor cymuned a thref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy'n destun y cynnig hwn.	Conwy Town Council - towncouncil@conwy.gov.uk
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Lleol	Marianne Jackson - Pennaeth y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol -
Cyrff Iechyd Perthnasol gyda chysylltiad:	Dr Hamilton Grantham - Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: - Hamilton.Grantham@wales.nhs.uk Sara Harvey, CAMHS - ASDinfo@WLG.gov.uk Liz McKinney a Joy Rettie, Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith
Arall	Holl staff Gofal Cymdeithasol ac Addysg

4.22 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae copïau ar gael ar gais gan y Gwasanaethau Addysg.:

4.3 Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

4.31 Disgrifiodd disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu darpariaeth adnoddau ar gyfer awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol y canlynol pan ymgynghorwyd â nhw:

Beth sy'n gweithio'n dda?	Beth allwn ni ei wella?
<i>"Rydw i'n teimlo llai o straen ac mae staff wedi fy helpu gyda fy ngorbryder. Rydw i'n chwerthin fwy. Rydw i'n dod i mewn bob dydd. Rwy'n hoffi cymysgu gyda disgyblion eraill"</i>	<i>"Y ffenestri, mae'n oer yn y dosbarth ond mae hawl gen i wisgo côt"</i>
<i>"Mi wnes i arddio"</i>	<i>"Dydw i ddim yn gwybod eto"</i>
<i>"Mae'n well na chael fy addysgu adref, dwi'n teimlo fy mod i'n dysgu mwy. Mae gen i ffrindiau – doedd gen i ddim ffrindiau adref"</i>	<i>"Dim a dweud y gwir, mae'n berffaith fel mae o"</i>
<i>"Yr athrawon a'r ffrindiau, mae'n dda"</i>	<i>"Dim syniad"</i>
<i>"Dwi wrth fy modd gyda DT"</i>	<i>"Cael ychydig mwy o bethau cŵl ar gyfer yr ystafell"</i>
<i>"Rydw i'n teimlo fy mod i eisiau aros yma"</i>	<i>"Dim"</i>
<i>"Rydw i'n hoffi'r gliniaduron a'r lpads ac mae'r bwyd yn fendigedig"</i>	<i>"Rydw eisiau cael fy nhrin fel oedolyn"</i>
<i>"Rydw i'n teimlo'n ddiogel i ffwrdd o'r bwllis, dydw i ddim yn cael unrhyw broblemau"</i>	<i>"Mwy o gyfrifiaduron er mwyn i mi fedru chwarae Minecraft Education yn yr ysgol"</i>

- 4.32 Gofynnwyd hefyd i ddisgyblion gydag awtistiaeth sy'n mynychu gwersi prif ffrwd Ysgol Aberconwy am eu barn am fendithion a heriau amgylchedd prif ffrwd o'u safbwynt nhw.

Beth sy'n gweithio'n dda?	Yr hyn sydd ddim yn gweithio?
<i>"Mae staff yn gwrandao ac yn dangos dealltwriaeth"</i>	<i>"Newid mawr i ddisgyblion gydag ASA ymdopi ag o yn ystod y diwrnod ysgol - athrawon cyflenwi, cynllun seddi, symudiad o amgylch yr ysgol ac ati"</i>
<i>"Y gefnogaeth sydd ar gael drwy Hafan a Pontio"</i>	<i>"Torfeydd mawr yn yr ysgol uwchradd"</i>
<i>"Mae'r ysgol yn gweithio gydag, ac yn cefnogi, anghenion unigol"</i>	<i>"Lefelau swm – gall fod yn swnllyd a brawychus mewn gwahanol rannau o'r ysgol"</i>
<i>"Mae'r systemau'n deg gyda phawb"</i>	<i>"Gall fod yn heriol i orfod gweithio gyda nifer o wahanol oedolion a phersonoliaethau"</i>

<i>"Gwybodaeth dda am blant a'u hamgylchiadau unigol"</i>	<i>"Torfeydd mawr / llawer o bobl"</i>
<i>"Cefnogaeth dda ym Mhontio a Hafan"</i>	<i>"Gall y gwaith fod yn galed"</i>
<i>"Cynnig i gael amser distaw"</i>	<i>"Mae digon o waith i'w wneud"</i>
<i>"Help gyda'r gwaith"</i>	<i>"Swnllyd"</i>
<i>"Mae staff yn gwrando"</i>	<i>"Gall newidiadau i'r athro, Cymhorthydd Addysgu a'r cynllun seddi fod yn straen"</i>
<i>"Rydan ni'n cael help gyda'n teimladau, er mwyn eu deall"</i>	
<i>"Mae Pontio yn fy mharatoi am newid"</i>	
<i>"Cynnig cofrestriad Pontio, Pontio distaw, a chlwb cinio Pontio"</i>	

4.33 Ymgynghorwyd hefyd â Chyngor yr Ysgol a rhoddwyd yr ymateb canlynol ganddynt:

"Byddai'r ddarpariaeth yn rhoi profiad ystafell ddosbarth mwy cefnogol ac wedi ei deilwra fwy. Mae hyn yn dda iawn, gan ei fod yn caniatáu'r myfyrwyr i barhau i gael profiad ysgol ond mewn ffordd sy'n gweddu eu ffordd o ddysgu yn well. Mae'n wych fod Aberconwy wedi agor ei ddrysau i fyfyrwyr ar draws Conwy, gan ei fod yn rhoi'r cyfle i unrhyw fyfyrwyr sydd angen i ddefnyddio'r gefnogaeth yma".

4.34 Bydd yr holl wybodaeth uchod yn cael ei defnyddio i helpu hysbysu datblygiad cefnogaeth a darpariaeth arbenigol a phrif ffrwd.

4.4 Ymatebion Eraill i'r Ymgynghoriad

4.41 Cafodd yr Awdurdod Lleol 6 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys yr ymateb statudol gan Estyn.

4.42 Mae'r canlynol yn grynodeb o'r materion a godwyd a'r adborth a roddwyd yn yr ymateb ac yn ystod y sesiynau galw heibio.

4.43 “Ydych chi o blaid y cynnig i agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd yn Ysgol Aberconwy?”

Ydw	Nac ydw
6	0

4.44 Roedd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid y cynnig, ac roedd y naratif a oedd yn cyd-fynd â'r ymatebion yn cynnwys:

“Mae peidio a chael unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer yr ystod oedran hwn yn tanseilio'r gefnogaeth a ddarparwyd yn gynharach; mae angen cefnogaeth ar blant yr oedran hwn mewn ysgol brif ffrwd er mwyn eu caniatáu i gyflawni eu potensial llawn”.

“Rwy'n credu ei fod yn adnodd sydd ei ddirfawr angen ar gyfer maes angen cynyddol o fewn y sir a byddai'n fuddiol i nifer o ddisgyblion niwro-amrywiol ac ASA”.

“Treuliais sawl blwyddyn yn gweithio gyda phobl ifanc ddiameddiffyn. Bydd cael canolfan addysgol sy'n gallu cefnogi'r bobl ifanc hyn gyda'u hanghenion unigol yn cael effaith gadarnhaol ar y person ifanc a'u teuluoedd. Pan nad yw'r anghenion hyn yn cael eu diwallu, gall arwain at ganlyniadau negyddol yn ddiweddarach yn eu bywydau fel defnydd o gyffuriau / alcohol, tor-perthynas, digartrefedd, ynysu cymdeithasol ac ati. Gallai mynd i'r afael â'u hanghenion ac ymyrraeth gynnar gael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu bywydau yn y dyfodol.”

“Mae hwn yn gynnig positif a blaengar iawn i gwrdd â'r heriau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd i gefnogi pobl ifanc gydag ASA. Mae'r cynllun yn ymestyn ar eu gwybodaeth sefydledig a datblygedig, eu sgiliau a'u harbenigedd gyda'r AALI. Byddain ymddangos fod ffurfioli'r gwaith mae'r ysgol wedi ei wneud gyda Pontio yn beth blaengar a phositif. Mae nifer o bobl ifanc a'u teuluoedd wedi gwneud sylwadau i mi a fy nghydweithwyr ynglŷn â'r ffordd mae'r dull hwn yn gefnogol ac yn gynhwysol”.

4.45 **Ymateb Estyn**

4.46 Mae'r ymateb llawn gan Estyn i'w gael yn yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad sydd ynghlwm. I grynhoi, casgliad yr ymateb yw: *“Barn Estyn yw fod y cynnig i sefydlu darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ledled Conwy sydd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig yn Ysgol Aberconwy yn debyg o gael effaith gadarnhaol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.”*

4.47 Er bod yr ymateb cyffredinol gan Estyn yn gadarnhaol, mi wnaethant godi'r sylw pellach a'r ystyriaeth a ganlyn:

4.48 **Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

4.49 *“Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cynnwys amserlen i sicrhau cydraddoldeb i ddisgyblion sydd â'r Gymraeg fel iaith gyntaf a sydd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig. Yn ogystal, nid chyfeirir o gwbl yn y cynnig at sicrhau y gall unrhyw staff y ganolfan siarad a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r cynigydd yn nodi a fydd y cynnig yn cefnogi'r targedau a amlinellir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor”.*

3.28 Nid yw'r Awdurdod Lleol yn gallu gosod amserlenni penodol ynghylch datblygu darpariaeth ASA ymhellach, fodd bynnag, mae wedi ei nodi yn flaenoriaeth strategol, a byddwn yn parhau i weithio arno dros y flwyddyn i ddod. Bydd cynllunio'n cael ei gymell a'i bennu drwy adolygiadau a gwerthuso parhaus o angen yn unol â'r cod ADY drafft a dyletswydd yr awdurdod i barhau i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), gan gynnwys pwyslais ar DDdY Cyfrwng Cymraeg. Bydd amserlenni, felly, yn ymatebol i nodi anghenion, darpariaeth gyfiawn, adolygiad cadarn o ddata hanesyddol ac amcanestyniadau o anghenion. Bydd y cyfnod cychwynnol ar ôl agor y ddarpariaeth yn Ysgol Aberconwy yn ffurfiol yn galluogi'r awdurdod i ystyried ei effaith a gweithio ar, a dysgu oddi wrth feysydd datblygu i helpu cyflwyno / datblygu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd yn rhoi digon o amser i ymgynghori'n ffurfiol ag Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg Conwy ynghylch lleoli, cynhwysiant a chyfleoedd cwricwlaidd. Yn y cyfamser, cynigir cefnogaeth well i ddysgwyr a nodir yn eu hysgolion cartref a'u cynnydd addysgol, eu lles a'u cynhwysiad cymdeithasol a gaiff ei fonitro'n agos gyda nhw a'u teuluoedd.

3.29 Fel y disgrifir uchod, hysbysebwyd pob swydd sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth fel rhai Cymraeg Dymunol / Hanfodol, a bydd y ddarpariaeth yn destun egwyddorion a thargedau creiddiol yr ysgol mewn perthynas â datblygu meysydd o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr holl staff hefyd yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod.

3.30 **Canlyniadau, Darpariaeth, Arweinyddiaeth a Rheoli**

3.31 *“Nid yw'r cynigydd wedi ystyried yn ddigonol effaith y cynigion ar ansawdd y canlyniadau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Aberconwy na chwaith a allai'r cynnig gael effaith ar unrhyw ysgolion eraill y mae hyn yn debyg o effeithio arnynt”.*

3.32 Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i ystyried y bydd agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd o fewn ysgol brif ffrwd ond yn cael effaith positif ar y canlyniadau i ddysgwyr, cynnig ehangach yr awdurdod o ddarpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheoli yn Ysgol Aberconwy. Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar y meysydd hyn mewn ysgolion eraill yng Nghonwy sy'n cynnal darpariaeth ddysgu ychwanegol; fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth y bydd yr awdurdod yn ei ystyried yn fanylach o safbwynt yr effaith ar ganlyniadau a gellir adrodd yn rheolaidd ar arweinyddiaeth a rheolaeth.

3.33 **Addasiadau i'r Adeilad**

3.34 *“Nid yw'r cynigydd wedi cynnwys manylion am unrhyw addasiadau i'r adeilad presennol yn Ysgol Aberconwy y gallai fod ei angen. Nid yw'n glir sut bydd y cynigydd yn sicrhau ei fod yn sicrhau cyn lleied a phosibl o amhariad i ddysgwyr presennol”.*

3.35 Mae ystafelloedd presennol yn adeilad yr ysgol wedi cael eu nodi nad ydynt yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd dosbarth gan fod capasiti o fewn niferoedd disgyblion. Felly, nid oes angen addasiadau i'r adeilad ac ni fydd unrhyw amhariad ar ddysgwyr presennol.

4. Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb yn gysylltiedig â'r cynnig a bydd y ddarpariaeth yn gwbl hygyrch i bob grŵp a ddiogelir a ddynodir. Fel y disgrifir uchod, mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i ddatblygu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg llawn ar yr un pryd ac yn y cyfamser, mae gwell cefnogaeth amgen ar waith.

5. Crynodeb ac Argymhellion

5.1 Crynodeb

- 5.11 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad i gyd wedi bod o blaid bwrw ymlaen ag agor y ddarpariaeth arfaethedig yn ffurfiol.

5.2 Argymhellion

- 5.21 Yr argymhelliad yn dilyn y cyfnod hwn o ymgynghori statudol yw ein bod yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynnig i agor darpariaeth ddysgu ychwanegol newydd yn ffurfiol yn Ysgol Aberconwy ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd sydd ag awtistiaeth ac anawsterau niwroddatblygiadol cysylltiedig.

- 5.22 Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion:

- Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi'r cynnig drwy hysbysiad statudol.
- Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar 22 Chwefror 2021 gan gynnig cyfnod rhybudd o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau.
- Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) o fewn y cyfnod rhybudd.
- Bydd y Cyfnod Gwrthwynebu yn dod i ben ar 22 Mawrth 2021 a bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau yn cael ei gynhyrchu a'i rannu gyda'r Pwyllgor Craffu Addysg a Sgiliau a'r Cabinet.